# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 14 Mai 2025 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Karen Edwards, James Elson, Chris Evans, Huw Hilditch-Roberts, Alan James (Is-Gadeirydd), Julie Matthews, Terry Mendies, Merfyn Parry, Anton Sampson, Gareth Sandilands, Andrea Tomlin, Elfed Williams a Mark Young (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Cyfreithiol (RJ), Prif Swyddog Cynllunio (PG), Rheolwr Datblygu (PM), Swyddog Cynllunio (BM), Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ) ac Uwch Weinyddwr Pwyllgorau; Darlledwr Zoom (KJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Jon Harland, Raj Metri, Gwyneth Ellis, Cheryl Williams a Michelle Blakeley-Walker.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Chris Evans gysylltiad personol yn eitem 9 ar y rhaglen - Tŷ Celyn, Cwm, Y Rhyl gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd Chris Evans gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 10 ar y rhaglen – 8 Dyffryn Teg, Rhuallt gan mai ef oedd ymgeisydd y cais.

## 3 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd Alan James benodi'r Cynghorydd Mark Young yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn gyngor 2024/25, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, felly

***PENDERFYNWYD*** *Penodi'r Cynghorydd Mark Young yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26.*

4 **PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26.

Cynigiodd y Cynghorydd Merfyn Parry benodi'r Cynghorydd Alan James yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ellie Chard.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, felly

***PENDERFYNWYD*** *Penodi'r Cynghorydd Alan James yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26.*

5 **MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu codi'r Cytundeb Adran 106 a fyddai'n cael ei orfodi ar Ysbyty Gogledd Cymru i'w drafod.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod wedi cytuno 12 mis yn ôl, trafododd yr aelodau gynnwys cytundeb Adran 106 gyda chais Ysbyty Gogledd Cymru. Yn y cofnodion, manylwyd y dylid trefnu'r cytundeb Adran 106 o fewn 3 mis. Roedd y Cadeirydd yn gwerthfawrogi'r anawsterau a wynebwyd, ond teimlai'n bwysig bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai cyfarfod ar wahân i drafod yr oedi fod o fudd.

Diolchodd y Rheolwr Datblygu i'r Cadeirydd am y cwestiwn a chytunodd ei fod yn brosiect cymhleth. Cytunodd â'r cynnig i'w drafod ymhellach gyda'r Aelodau a chytunodd i gyflwyno'r cynnig ar gyfer cyfarfod i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Prif Weithredwr a oedd yn rhan o'r achos.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rheolwr Datblygu yn anfon y cais am ddiweddariad ar Safle Ysbyty Gogledd Cymru ymlaen at y Pennaeth Gwasanaeth a'r Prif Weithredwr a bod diweddariad i'r Aelodau yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl.*

6 **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Ebrill 2025.

Materion cywirdeb – Dim

Materion yn codi - Dim

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025 fel cofnod cywir o'r trafodion.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 7 - 10) -**

Cyflwynwyd ceisiadau a dderbyniwyd yr oedd angen penderfyniad gan y Pwyllgor arnynt ynghyd â dogfennaeth gysylltiedig. Cyfeiriwyd hefyd at y wybodaeth atodol a gyflwynwyd

yn hwyr a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r rhaglen ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a oedd yn ymwneud â'r ceisiadau hynny. Er mwyn caniatáu ceisiadau gan aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau, cytunwyd y dylid amrywio trefn y ceisiadau ar y rhaglen.

**7 RHIF Y CAIS: 07/2024/1377/PF - ADEILADAU ALLANOL GER FFERM BRYN PENLLYN, LLANDRILLO, CORWEN, SIR DDINBYCH**

Cyflwynwyd cais i adeiladu estyniad a thrawsnewid adeilad allanol presennol i ffurfio un uned gwyliau (Dosbarth Defnydd C6) gan gynnwys gosod pwmp gwres yn y ddaear, paneli solar ar y to, codi clwyd ystlumod ar yr ysgubor gyfagos, ffurfio lle parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar adeiladau allanol ger Fferm Bryn Penllyn, Llandrillo.

**Siaradwyr Cyhoeddus**

**Mrs Fran Burn** (O blaid) – Diolchodd y siaradwr cyhoeddus i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am y cyfle i annerch yr aelodau.

Clywodd yr aelodau fod yr ymgeisydd wedi bod yn gysylltiedig â'r eiddo ers 1948 pan oedd yn fferm weithredol. Eglurodd fod ei theulu wedi rhentu'r eiddo Pant Llyn yn gyntaf cyn prynu rhan o'r eiddo gyda hawliau dŵr ac etifeddu gweddill yr eiddo gyda hawliau dŵr yn ddiweddarach. Clywodd yr aelodau fod y teulu wedi cynnal yr eiddo o'u cartref ers dros 45 o flynyddoedd.
Roedd y bywyd gwyllt a'r ffordd o fyw yn cael eu trysori gan y teulu, yn enwedig yr ystlumod a'r gwenoliaid. Pwysleisiwyd bod gwenoliaid wedi dychwelyd i un o'r ysguboriau yn y cyfleuster ond nad oedd yr ysgubor yn cael ei heffeithio gan y cais.

Clywodd yr aelodau mai'r rheswm dros y cais oedd i ddatblygu'r safle i'r dyfodol, er mwyn ei atal rhag dirywio. Ceisiwyd cyngor ar Bolisi Lleol Cenedlaethol a hysbyswyd yr ymgeisydd mai'r ffordd orau oedd i ddatblygu'r ysgubor yn gartref gwyliau un ystafell wely ar gyfer dau berson. Roedd y datblygiad wedi'i ddylunio i integreiddio gyda'r adeilad presennol, ac i beidio ag amharu ar gymeriad yr eiddo.
Ni ragwelwyd y byddai dau ymwelydd yn creu llawer iawn o sŵn ac roeddent yn hyderus y byddai'r cwmni a fyddai'n rheoli'r uned gwyliau yn gwneud hynny mewn ffordd gymwys a phroffesiynol. Ni fyddai cŵn yn cael eu caniatáu yn yr uned gwyliau.

Dywedodd yr ymgeisydd eu bod yn ymwybodol o'r amodau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â'r cais a'u bod yn fodlon cydymffurfio â'r holl amodau arfaethedig. Roedd yr ymgeisydd wedi cydymffurfio a chyfathrebu gyda swyddogion a gweithwyr proffesiynol i leddfu rhai o bryderon yr eiddo cyfagos.

**Mr Mike James** (Yn erbyn) – Pwysleisiodd fod sawl agwedd ar y cais a oedd yn peri pryderon difrifol. Nid oedd disgrifiad y Gofrestrfa Tir o'r safle arfaethedig wedi cael ei ddefnyddio ac roedd enw'r lleoliad yn anghywir.
Dywedodd nad oedd wedi derbyn hysbysiad o gyflwyniad y cais. Yn ôl y cais, roedd yr eiddo agosaf 160 metr i ffwrdd ond roedd ei eiddo ef o fewn 60 metr o'r eiddo.

Pwysleisiodd fod yr estyniad arfaethedig i'r ysgubor yn anghywir o hyd at 1 metr ar y cynlluniau gan wneud iddo edrych yn fwy deniadol ar y cynlluniau. Pan heriwyd hyn, fe'u disodlwyd.

Cwblhawyd dau adroddiad croes i'w gilydd ar y tanc septig presennol, gydag un yn cyfeirio at 4 person yn ei ddefnyddio a'r llall yn cyfeirio at ddau. Clywodd yr aelodau y cytunwyd ar ddau yn dilyn herio.
Dywedodd y siaradwr ei fod yn credu y byddai'r ymgeisydd a'r asiant wedi bod yn llwyr ymwybodol o oblygiadau'r camgymeriadau ar ganlyniad y cais.

Tynnodd y siaradwr sylw'r aelodau at y dderwen aeddfed a oedd wedi'i lleoli ar y safle. Mynegodd y siaradwr bryderon hefyd ynglŷn ag addasrwydd y fynedfa bresennol i gerbydau ar y safle.

Dywedodd y siaradwr fod Dŵr Cymru wedi amcangyfrif y byddai dau berson yn cynhyrchu 2.1 metr ciwb o wastraff yr wythnos. Dim ond 1.5 metr ciwb oedd capasiti'r tanc septig, felly byddai'n rhaid ei wagio'n aml er mwyn osgoi gorlifo. Ar gyfer tanc septig mawr, byddai angen cae draenio newydd, 15 metr o unrhyw adeilad - a fyddai'n anodd iawn ar y safle hwn. Pwysleisiodd nad oedd dŵr wedi cael ei gynnwys yn y cais, er bod Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid ystyried digonolrwydd y cyflenwad dŵr a'r isadeiledd carthffosiaeth yn llawn.
Nid oedd y cynnig i gasglu dŵr glaw yn ddatrysiad posibl. Roedd yn annhebygol y byddai system casglu dŵr glaw yn cefnogi'r datblygiad.
Pwysleisiodd mor bwysig yr oedd i swyddogion ac aelodau dderbyn gwybodaeth gywir er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus.

**Trafodaeth Gyffredinol -**

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion ar y materion a godwyd gan y siaradwr cyhoeddus, yn enwedig y pryderon ynglŷn â'r cyflenwad dŵr.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cynllunio fod problemau gyda chyflenwad dŵr yn yr ardal oherwydd ei fod ar hyn o bryd yn gyflenwad dŵr ffynnon. Cafwyd trafodaethau gyda'r swyddog gwarchod y cyhoedd. Cadarnhaodd fod pryderon ynglŷn â chyflenwad ar gyfer yr ardal. Roedd yr ymgeisydd wedi comisiynu adroddiad gan gwmni lleol, Waterco, a oedd wedi cyfrifo'r potensial ar gyfer casglu dŵr glaw ar y safle. Roedd yn ymddangos bod y ffigyrau a ddarparwyd wedi cael eu cyfrifo yn unol â safonau'r diwydiant ac y byddai'r safle'n addas ar gyfer casglu dŵr glaw. Dywedodd y swyddog gwarchod y cyhoedd y byddai'n rhaid i swyddogion cynllunio weld rhagor o fanylion am y system a oedd yn cael ei chynnig, tynnwyd sylw'r aelodau at amod 13 a oedd yn gofyn am fanylion y system honno. Roedd y swyddogion yn fodlon gyda'r wybodaeth dechnegol a oedd wedi cael ei darparu ynghyd â'r amod, gellid rheoli dŵr heb achosi niwed i eiddo cyfagos.

O ran mynediad i'r safle, clywodd yr aelodau fod y cais wedi cael ei gyflwyno i swyddogion priffyrdd ar gyfer sylwadau ac o ystyried ei fod yn ddatblygiad ar raddfa fach, roedd y mynediad yn dderbyniol.

Clywodd yr aelodau am y dderwen a oedd wedi'i lleoli oddeutu 10 metr o'r safle. Cyfeiriwyd yr aelodau at yr amod a oedd yn nodi bod yn rhaid gwarchod coed yn

ystod gwaith adeiladu, a lle'r oedd amod arall hefyd wedi'i osod yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu manylion am y decin cyn ei osod er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar wreiddiau'r dderwen gyfagos.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch ar ba bwynt y byddai angen cytuno ar yr amodau. Mewn ymateb, cyfeiriwyd yr aelodau at y daflen sylwadau hwyr a oedd yn cynnwys amod ychwanegol a oedd yn datgan y byddai'n rhaid i swyddogion gael gweld sut y byddai dŵr yn cael ei gludo i'r safle cyn y gellid dechrau ar unrhyw waith adeiladu.

Gofynnodd y Cynghorydd Terry Mendies am ragor o wybodaeth am y system garthffosiaeth sydd yno, a dywedodd, o edrych ar y cais, nad oedd CNC na Dŵr Cymru wedi codi pryderon. Mewn ymateb i'r pryder ynglŷn â'r system garthffosiaeth ar y safle, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cynllunio mai CNC oedd yn gyfrifol am yr agwedd honno o'r datblygiad, a'u bod wedi derbyn bod y defnydd yn dderbyniol. Roedd amod yn gysylltiedig â'r cais a oedd yn gofyn am gyflwyno manylion ynglŷn â draenio dŵr budr a dŵr wyneb i swyddogion cyn dechrau defnyddio'r safle.

Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd Gorchymyn Diogelu Coed yn gysylltiedig â'r dderwen. Roedd y goeden wedi'i lleoli y tu allan i'r safle datblygu.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Karen Edwards y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, yn cynnwys y rhai hynny ar y papurau hwyr, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Alan James.

**Pleidlais –**
O blaid – 13
Yn erbyn – 0
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y Swyddog.

**8 RHIF Y CAIS: 47/2024/1056/PC - TŶ CELYN, CWM, Y RHYL, SIR DDINBYCH, LL18 5SN**

Cyflwynwyd cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd tir i ddefnydd cymysg sy'n cynnwys; defnydd preswyl, defnydd amaethyddol mewn cysylltiad â'r tyddyn a choedyddiaeth presennol, a datblygiad gweithredol sy'n gysylltiedig â'r defnyddiau uchod, sy'n cynnwys codi adeilad ffrâm ddur, darparu haen o lawr caled newydd ar lawr caled sy'n bodoli eisoes, a newidiadau i fynediad i briffordd yn Nhŷ Celyn, Cwm, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

**Siaradwr Cyhoeddus –** Sioned Edwards, Cynllunio Cadnant (O blaid) – Diolchodd y siaradwr i'r aelodau am y cyfle i siarad o blaid y cais.

Hysbyswyd yr aelodau mai cais ôl-weithredol oedd hwn, a bod yr ymgeisydd yn gweithio'n rhagweithiol gyda swyddogion cynllunio i ddatrys y mater.

Roedd yr ymgeisydd yn denant yn Nhŷ Celyn, yn prydlesu'r tyddyn amaethyddol. Roedd byw yn yr eiddo yn caniatáu i'r teulu ffermio ar y tyddyn ac yn caniatáu i'r ymgeisydd barhau i weithredu ei fusnes gwledig sy'n seiliedig ar dir.

Nodwyd bod cais blaenorol a gyflwynwyd ar gyfer defnydd mwy eang o'r tir wedi cael ei dynnu'n ôl ym mis Hydref 2023. Cyflwynwyd y cais diwygiedig heddiw i reoleiddio defnydd yr adeilad ffrâm ddur a'r llawr caled o'i amgylch.
Roedd yr ymgeisydd yn cyflogi nifer fechan o weithwyr mewn cysylltiad â'i fusnes amaethyddol.
Ar hyn o bryd, roedd yr adeilad ffrâm ddur dan sylw yn cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd i storio peiriannau ac offer yn gysylltiedig â'i fusnes amaethyddol a thirlunio. Roedd yr adeilad hefyd yn cael ei ddefnyddio i storio offer amaethyddol yn gysylltiedig â'r tyddyn yn Nhŷ Celyn ac i gynnal a chadw'r tir.
Nodwyd bod rhai gwrthwynebiadau i'r cais a godwyd gan eiddo cyfagos wedi drysu rhwng y busnes Arbworks a'r tyddyn.

Ar ran yr ymgeisydd, gofynnodd y siaradwr i'r aelodau ystyried amod rhif 9, fe allai'r cyfyngiad amser yn gysylltiedig â'r amod hwnnw fod yn dynn iawn, yn enwedig oherwydd bod yn rhaid caniatáu digon o amser i weithwyr sydd wedi bod yn gweithio oddi ar y safle i orffen eu diwrnod gwaith a dychwelyd i'r safle. Hefyd, gellid camgymryd symudiadau yn gysylltiedig â gweithgareddau teuluol neu'r tyddyn am symudiadau yn gysylltiedig â'r busnes.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Chris Evans (aelod lleol) ei fod yn adnabod y safle'n dda ac yn adnabod yr ymgeisydd a'i deulu. Dywedodd fod y safle'n lân, yn daclus, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ymweld â'r safle ar 9 Mai, roedd llawer yn bresennol ac roedd yn ddefnyddiol iawn.
Cadarnhaodd y Cynghorydd James Elson ei fod wedi mynychu'r cyfarfod safle. Dywedodd wrth yr aelodau ei fod yn falch iawn o nodi cyn lleied o'r safle a oedd yn weladwy wrth agosáu ato. Roedd yn hapus gyda'r ymatebion a ddarparwyd ynglŷn â'r pryderon gweledol a godwyd gan AHNE.
Ategodd y Cynghorydd Merfyn Parry safbwyntiau'r Cynghorydd Elson a diolchodd i'r swyddogion am y cyfle i fynd i'r safle a chael mewnwelediad uniongyrchol i'r ardal amgylchynol a beth fyddai'r cais yn ei gynnwys.
Diolchodd y Rheolwr Datblygu i'r aelodau am yr adborth o'r ymweliad safle. Roedd swyddogion wedi gweithio gyda'r ymgeisydd i ddatrys rhai o'r pryderon blaenorol ac, wrth wneud hynny, wedi edrych ar amodau rhesymol i'w gosod i reoli defnydd y safle. Roedd swyddogion yn teimlo ei bod yn rhesymol i osod amod ar oriau gweithredu'r elfennau masnachol ar y safle er mwyn gwarchod amwynderau'r ardal. Mae gosod amodau cynllunio'n ceisio rheoli datblygiad a'i effeithiau. Wrth gyfyngu oriau gweithredu, byddai'r Awdurdod Cynllunio bob amser yn cymryd golwg ymarferol ar niwed. Byddai angen iddynt orfodi'r amodau pe bai gweithredu y tu allan i'r oriau a gytunwyd yn arwain at effeithiau amwynder sylweddol y gellid eu gweld yn lleol.
Roedd amod rhif 9 a oedd yn gosod amseroedd yn benodol i'r busnes Coedyddiaeth (Arbworks UK Ltd). Eglurwyd bod yr amod ond yn berthnasol i'r busnes masnachol.

Pwysleisiwyd i’r aelodau bod y cais yn cynnwys cyflwyno defnydd masnachol mewn ardal wledig; nid oedd gweithrediadau masnachol fel arfer yn cael eu cymeradwyo mewn lleoliadau gwledig.

**Cynnig** - Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid cymeradwyo’r cais yn dilyn dileu amod rhif 9 mewn perthynas ag amseroedd gweithredu’r busnes Coedyddiaeth (Arbworks UK Ltd), eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Evans.

Nododd yr aelodau’r pryderon a godwyd gan AHNE, gan ofyn am eglurder pellach ar y pryderon hynny. Mewn ymateb, dywedodd y swyddogion fod AHNE yn edrych ar olwg a chymeriad yr ardal a llonyddwch yr ardal wrth adolygu ceisiadau. Roedd swyddogion wedi nodi’r pryderon a godwyd gan AHNE ac wedi gosod amodau i helpu i liniaru’r pryderon hynny. Teimlwyd bod yr ymweliad safle wedi caniatáu i aelodau adolygu a gweld yr effaith bosibl ar y cymeriad a’r harddwch.

Dywedodd y Cynghorydd Alan James, yn dilyn yr ymweliad safle ac o edrych ar y lluniau a oedd wedi’u cynnwys yn y cais, bod yr adeilad dan sylw yn ymddangos, o bell, fel adeilad fferm. Roedd yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrech i sicrhau bod cymeriad yr adeilad yr un fath â’r hyn a oedd o’i gwmpas. Ni chodwyd unrhyw bryderon am yr effeithiau gweledol yn ystod yr ymweliad safle.

**Pleidlais –**
O blaid – 13
Yn erbyn – 0
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** *y dylid CYMERADWYO’r cais yn unol ag argymhellion y swyddog yn amodol ar ddileu amod rhif 9 a oedd yn ymwneud ag amseroedd gweithredu’r busnes Coedyddiaeth.*

Gwnaed cais bod yr holl aelodau’n defnyddio’r microffonau wrth bleidleisio.

Ar y pwynt hwn (10.27am), cymerodd y Pwyllgor egwyl fer am 5 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.32 am.

**9 RHIF Y CAIS: 12/2024/1398/HH - 3, CRUD YR AWEL, CLAWDDNEWYDD, RHUTHUN, SIR DDINBYCH, LL15 2NJ**

Cyflwynwyd cais i godi estyniad i gefn yr annedd a gwaith cysylltiedig yn 3, Crud Yr Awel, Clawddnewydd, Rhuthun.

Hysbysodd y Prif Swyddog Cynllunio’r Aelodau fod y cais wedi’i gyflwyno gan Bennaeth Gwasanaeth Cyngor Sir Dinbych a dyna pam ei fod wedi’i gyflwyno i’r pwyllgor yn unol â’r cynllun dirprwyo.
Roedd y cais yn cydymffurfio â'r holl bolisïau a chanllawiau cynllunio.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y Cadeirydd neu aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Andrea Tomlin y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac EILIWYD hynny gan y Cynghorydd Alan James.

**Pleidlais –**
O blaid – 13
Yn erbyn – 0
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** *y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y swyddog.*

**10 RHIF Y CAIS: 47/2024/1385/HH - 8 DYFFRYN TEG, RHUALLT, LLANELWY, SIR DDINBYCH, LL17 0TA**

Ar adeg y cyfarfod, gadawodd y Cynghorydd Chris Evans yr ystafell gyfarfod gan ei fod wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem ar y rhaglen.

Cyflwynwyd cais i godi ffenestri dormer yn y blaen a'r cefn i ddarparu lle byw ychwanegol o fewn y gofod to yn 8 Dyffryn Teg, Rhuallt, Llanelwy.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y cais wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor oherwydd yr Aelod Lleol Chris Evans yw'r ymgeisydd, felly yn unol â'r cynllun dirprwyo fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio i'w drafod. Ailgyflwyniad oedd y cais yn dilyn gwelliannau i'r cynllun mawr a wrthodwyd, roedd yr ymgeisydd wedi adolygu'r cynlluniau ac wedi cydymffurfio â chynlluniau a pholisïau a gymeradwywyd gan yr awdurdod.

Roedd y Cynghorydd Merfyn Parry yn falch o weld bod yr ymgeisydd wedi ailystyried y cynlluniau ac wedi diwygio'r cynlluniau gwreiddiol;

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid CYMERADWYO'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac EILIWYD hynny gan y Cynghorydd Karen Edwards.

**Pleidlais –**
O blaid – 12
Yn erbyn – 0
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** *y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y Swyddog.*

**11 TAN 15 NEWYDD - DATBLYGU, LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio yr adroddiad gwybodaeth am y TAN 15 newydd (dosbarthwyd ymlaen llaw).
Fe eglurodd bod y Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) - Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol yn cynnwys eglurhad manwl am y polisi Cenedlaethol. Cyhoeddwyd TAN15 gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei ddilyn. Roedd yn ganllaw ar gyfer datblygiadau arfordirol a risg o lifogydd. Cyhoeddwyd y TAN15 newydd ar 31 Mawrth 2025. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i Aelodau am y newidiadau i'r Polisi Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar risgiau arfordirol a llifogydd.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio rhagor o fanylion gan ddweud bod y TAN15 newydd yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ac unrhyw geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ar ôl 31 Mawrth 2025. Roedd TAN 15 newydd yn mynd i'r afael â pherygl llifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain. Roedd yn disodli Nodyn Cyngor Technegol 14 ar gynllunio arfordirol.
Roedd y TAN 15 newydd yn cynnwys mapiau llifogydd wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru oedd yn cynnwys data ar newid hinsawdd. Clywodd yr Aelodau fod yna 4 parth llifogydd ar gyfer y risgiau llifogydd. Parth 1 oedd y risg isaf o lifogydd a oedd yn caniatáu pob datblygiad, a pharth 3 oedd y risg mwyaf sylweddol o lifogydd a dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn yr oedd datblygiad yn cael ei ganiatáu ac roedd angen cyfiawnhad sylweddol. Roedd yna ofyniad i adrodd unrhyw ddatblygiadau bregus iawn i Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys.
Parth newydd – parth a amddiffynnir TAN15, dosbarthiad newydd, mae'n ystyried ardaloedd sydd ag amddiffynfeydd a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'n caniatáu rhywfaint o ddatblygu yn y parth gyda rhai cyfyngiadau, ond mae dal angen cyfiawnhad. Fe bwysleisiwyd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r amddiffynfeydd o dro i dro er mwyn sicrhau bod yr amddiffyniad yn cyrraedd y safonau gofynnol.
Roedd gofynion ychwanegol yn y TAN15 newydd hefyd yn ymwneud â dŵr wyneb a risgiau llifogydd cyrsiau dŵr bach yr oedd yn rhaid eu hystyried ar bob math o ddatblygiad. Byddai unrhyw effaith ar ddŵr wyneb parthau llifogydd 2 a 3 bellach angen asesiad canlyniadau llifogydd.
Clywodd yr Aelodau bod TAN15 newydd yn nodi pan oedd cais cynllunio yn cael ei dderbyn heb wneud cais am gymeradwyaeth Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy ar yr un pryd, yna byddai angen Datganiad Draenio ar gyfer y cais. Felly bydd yn rhaid i swyddogion cynllunio ymgynghori gyda thîm Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy ynglŷn â datganiadau draenio.

Pwysleisiodd y Rheolwr Datblygu pa mor bwysig oedd hi fod Aelodau yn cael gwybod am unrhyw newidiadau neu bolisïau newydd. Teimlwyd ei fod yn synhwyrol ei gynnwys ar yr agenda i Aelodau fod yn ymwybodol o TAN 15 newydd. Cynigiodd swyddogion bod cyfnod o amser yn cael ei roi i alluogi swyddogion i arsylwi'r newidiadau a'r gofynion a dod yn ôl gerbron y Pwyllgor gyda deunydd hyfforddiant.

Gwnaed yr Aelodau yn ymwybodol bod yna gyfeiriad at dermau peirianneg yn y ddogfen allai fod yn berthnasol i adeiladu. Bydd swyddogion Cynllunio yn cael eu harwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn rhoi sylw ar bob cais cynllunio ynghyd ag unrhyw weithiwr proffesiynol arall oedd angen rhoi sylw ar geisiadau. Gan ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio wrth yr aelodau bod y term 'bwrdd rhydd' yn ymwneud â gofod neu lwfans ychwanegol a adawir uwchben

arwyneb y dŵr neu lefel llifogydd a ddisgwylir. Mae'n nodwedd diogelwch sy'n cael ei gynnwys mewn cyfrifiadau dylunio ac yn TAN15 mae'n ofyniad ar gyfer pob strwythur amddiffynfeydd llifogydd sy'n cael eu hystyried yn rhan o barthau a amddiffynnir TAN15 ers 2016.
Cafodd y TAN15 diwethaf ei gyhoeddi yn 2004. Mae'r dystiolaeth wedi newid, cyfeiriodd swyddogion cynllunio at y mapiau sydd bellach yn cynnwys cyfrifiadau newid hinsawdd sy'n cael eu diweddaru bob 6 mis. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu parthau a amddiffynnir TAN15 bob 2-3 blynedd. Mae gan Awdurdodau Lleol fewnbwn i fapio a rhoi data i CNC yn enwedig mewn perthynas â risgiau llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain yn ogystal ag unrhyw waith amddiffynfeydd sy'n cael ei wneud.
Dywedodd y Swyddog Cynllunio ei fod yn gobeithio y byddai'r amddiffynfeydd llifogydd oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd wedi ystyried hyn, a phan roedd yna waith gwella a diweddaru, byddai'r rhain yn cael eu hadolygu eto gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cadarnhaodd Swyddogion bod y polisi newydd wedi cael ei ystyried mewn cysylltiad â'r Cynllun Datblygu Lleol. Pwysleisiwyd y bydd unrhyw geisiadau newydd sydd wedi'u dyddio o 31 Mawrth 2025 yn cael eu hasesu yn unol â TAN 15 newydd. Byddai'n haws asesu'r effaith drwy ei weithredu, gan ddefnyddio TAN15 i geisiadau cynllunio newydd, felly dros y chwe mis nesaf. Byddai adroddiadau datblygiad oedd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn parhau mor gadarn gan gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr eglurhad manwl i bolisi TAN15 newydd.

***PENDERFYNWYD*** *fod aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am.**